**Cyd-gyfarfod y Cynghorau**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y rhith-gyfarfod a gynhaliwyd am 10.00a.m. ddydd Iau 1 Hydref 2020

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Tony Ball
Pam Berry
Andrew Curl
Tania Davies
Margaret Evans
Sian Eirian
Andrew Gibson
Eifion Griffiths
Emma Hughes
Dr Gareth Hughes
Yr Athro Medwin Hughes
Rowland Jones
James Mills
Arwel Ellis Owen
Victoria Provis
Stuart Robb
Geraint Roberts
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry
Maria Stedman
Georgia Thomas
Deris Williams

Hefyd yn bresennol:

Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Steve Baldwin Cyfarwyddwr Cynllunio Ariannol a Dadansoddi Busnes Strategol
Gavin Bessant Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Dr Andrew Cornish, Pennaeth, Coleg Sir Gâr
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

Wrth agor y cyfarfod, gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau nodi marwolaeth ddiweddar Phil Owen, cyn-aelod y Cyngor.

| Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 20.25<br>Ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau o fuddiannau | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Athro Robert Brown.<br><br>DERBYNIODD y Cynghorau'r Gofrestr o Fuddiannau Aelodau 2020/21. Nododd y Clerc y byddai'r gofrestr yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Brifysgol.<br><br>Gwahoddwyd aelodau i ddatgan eu buddiannau mewn unrhyw eitem ar yr agenda. Ni nodwyd unrhyw fuddiannau. | |
| 20.26<br>Cymeradwyo'r Cofnodion | CADARNHAODD y Cynghorau gofnodion y cyd-gyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2020 (JC055) a CHYMERADWYO eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol.<br><br>Nododd y Clerc y byddai'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi wedi iddynt gael eu cyfieithu. | |
| 20.27<br>Pwyntiau gweithredu a materion sy'n codi | DERBYNIODD y Cynghorau'r tabl pwyntiau gweithredu a ddiweddarwyd (JCO056).<br><br><u>Cyhoeddi cofnodion</u><br>Anogodd aelodau i'r Brifysgol flaenoriaethu cyfieithu cofnodion er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth eu cyhoeddi.<br><br><u>Polisi Rheoli Risg</u><br>Nododd y Clerc bod DFS wedi cadarnhau bod lefelau goddefiant ariannol wedi'u gosod o dan lefel y cyfamodau er mwyn caniatáu lle i symud. | |
| 20.27<br>Cylch gorchwyl | DERBYNIODD y Cynghorau gylch gorchwyl y ddau Gyngor (JCO057). | |
| 20.28<br>Cynllun gwaith 2020/21 Cynghorau PC a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | YSTYRIODD y Cynghorau gynlluniau gwaith 2020/21 yn dangos y gwaith a ragwelir ar gyfer y Cyd-gyngor, Cynghorau PC a'r Drindod Dewi Sant (JCO058).<br><br>Cafodd y cynllun drafft ei seilio ar eitemau safonol a disgwyliedig. Roedd yr UG wedi cael y cyfle i ystyried y cynlluniau gwaith ac roedd wedi nodi efallai y byddai angen peth hyblygrwydd o ganlyniad i effaith bresennol Covid-19.<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau'r cynlluniau gwaith ar gyfer 2020/21. | |

| Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 20.29<br>Adroddiad y Cadeirydd | YSTYRIODD y CYNGHORAU adroddiad Cadeirydd y Cyngor (JC0059).<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd a'r aelodau at ymddeoliad Eirlys Pritchard-Jones o'r Cyngor a chydnabod ei chefnogaeth a'i chyfraniad eithriadol at waith y Brifysgol. Diolchodd yr Is-Ganghellor i Eirlys Pritchard-Jones ar ran yr uwch dîm.<br><br>Cymeradwyodd aelodau waith yr Is-ganghellor, swyddogion a staff wrth ymateb i'r sefyllfa Covid-19 bresennol ac wrth sicrhau bod y campysau'n amgylchedd diogel i fyfyrwyr a staff. Bu iddynt gyfeirio at y diwrnod o friffiau a chyflwyniadau ar 1 Hydref 2020 a lleisio'u hedmygedd at y staff am fynd i'r afael â'r 'normal newydd' a'r ffordd y cafodd newidiadau radical eu rheoli, gan arddangos uchelgeisiau realistig y Brifysgol ar gyfer darparu gwasanaeth i'r byd newydd. | |
| 20.30<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cynghorau gyflwyniad gan yr Is-Ganghellor a ganolbwyntiodd ar weledigaeth y ddwy brifysgol ac a ddarparodd drosolwg o'r sefyllfa bresennol, blaenoriaethau allweddol a thrywydd ar gyfer y flwyddyn academaidd.<br><br>Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at heriau sicrhau diogelwch myfyrwyr a staff o fewn cyfyngiadau presennol Covid-19 a chyfleoedd rai o'r materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw, ynghyd â meysydd polisi a phenderfyniadau wrth i'r Drindod Dewi Sant gymryd ei Chynllun Strategol cyfredol ymlaen.<br><br>Nododd yr Is-Ganghellor bwysigrwydd arddangos cymeriad unigryw a gwerth addysg uwch i Lywodraethau ac atgyfnerthu effaith posibl Prifysgolion dros y bum mlynedd nesaf.   Byddai angen i'r Brifysgol ddatblygu safle rhagweithiol a blaengar gan ddatblygu cyfleoedd technegol newydd a chymorth seilwaith i ddatblygu menter o fewn ei chymunedau.<br><br>Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at wneud 'lle' a Chenhadaeth Ddinesig ac amlinellodd gynigion y dyfodol ar gyfer campysau unigol a chanolfannau dysgu dinasoedd. Cyfeiriodd at y gwaith o adlinio'r cwricwlwm sy'n mynd rhagddo ac adroddodd ar adolygiad pellach a oedd wedi digwydd ar draws yr Athrofeydd. Roedd swyddogion hefyd yn gweithio ar sefydlu rhaglenni sydd wedi'u seilio'n fwy ar ddiwydiant ac ar ymchwil arloesol. | |

| Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at sefydlu gwydnwch a diogelu'r Brifysgol i'r dyfodol. Adroddodd ar ymgysylltiad mwy o lawer â pherchenogaeth ariannol a phenderfyniadau strategol yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac ailddatgan cymeriad unigryw.<br><br>Cymeradwyodd aelodau weledigaeth cyflwyniad yr Is-Ganghellor a'r agenda cyffrous ar gyfer y dyfodol. Pwysleisiodd aelodau bwysigrwydd, iddyn nhw yn llywodraethwyr, cefnogi'r Brifysgol a sicrhau ei bod mewn sefyllfa i gyflawni'r weledigaeth ac uchelgeisiau. | |
| 20.31<br>Cofrestr risg gorfforaethol | YSTYRIODD y Cynghorau'r Gofrestr Risg a'r argymhellion ynghylch parodrwydd i dderbyn risg (JCO061).<br><br>Nododd y Clerc, yn dilyn cymeradwyo'r Polisi Risg newydd, bod gofyniad newydd ar Gynghorau i wneud penderfyniad blynyddol ynghylch y parodrwydd i dderbyn risg wrth gymryd blaenoriaethau a chynllunio strategol ymlaen.<br><br>Cyfeiriwyd yr aelodau at y ddogfen a oedd yn darparu diffiniad o barodrwydd i dderbyn risg, arf asesu ac argymhelliad yr Uwch Gyfarwyddiaeth o'r parodrwydd i dderbyn risg y gellid ei fabwysiadu ar gyfer blaenoriaethau'r sefydliad ar gyfer 2020/21, fel yr amlinellwyd yn *Agenda 2020/21.*<br><br>Ystyriodd aelodau hefyd y Gofrestr Risg Gorfforaethol, a oedd wedi'i hadolygu a'i diweddaru gan yr Uwch Gyfarwyddiaeth ers ei chyflwyno i'r Cynghorau ym mis Gorffennaf 2020. Roedd y diweddariadau i'r gofrestr yn perthyn yn bennaf i'r sefyllfa Covid-19.<br><br>CYTUNODD y Cynghorau:<br><br>• I GADARNHAU argymhelliad swyddogion ynghylch y parodrwydd i dderbyn risg<br>• I GADARNHAU'r Gofrestr Risg Gorfforaethol fel man cychwyn priodol ar gyfer y flwyddyn. | |
| 20.32<br>Gwrthdaro Buddiannau | Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 20.33 | Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ddydd Iau 26 Tachwedd 2020. | |

| Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf | | |
| | | |